

Rhaglen y Gêm / Matchday Programme

Y FELINHELI v BLAENAU FFESTINIOG AMATEURS



Ardal North West
Nos Fercher / Wednesday
Cae Seilo, Y Felinheli

25.08.21
6.30PM





ANRHYDEDDAU'R CLWB

CLUB HONORS

Enillwyr / Winners

Welsh Alliance League Division 2	2019-20
Gwynedd League	1983-84, 2000-01, 2015-16
Caernarfon & District League	1981-82, 1982-83, 2013-14
NWCFA Challenge Cup	1987-88
NWCFA Junior Cup	2012-13, 2013-14
Welsh Alliance League Barritt Cup	1999-2000
Welsh Alliance League Alves Cup	1991-92
Welsh Alliance League Lock Stock Cup	2018-19
Gwynedd Cup	1984-85, 2015-16
Caernarfon & District League Alves Cup	1981-82
Caernarfon & District League Mooring Cup	1981-82
Caernarfon & District League Will Evans Cup	1982-83
Caernarfon & District League Llun Mewn Ffram Cup	2013-14

Ail / Runner-up

Welsh Alliance League	1991-92
Caernarfon & District League	2011-12, 2012-13
NWCFA Challenge Cup	1988-89, 1989-90
NWCFA Junior Cup	1985-86, 1994-95
Welsh Alliance League Barritt Cup	1981-82
Welsh Alliance League Alves Cup	1983-84, 2000-01
Caernarfon & District League Alves Cup	1978-79

Delwedd

websites that work
gwefannau sy'n gweithio

delwedd.co.uk | post@delwedd.co.uk | 01286 727 227

swyddle

recriwtio • hysbysebu

Shed.

GOFOD
CREADIGOL



SNOWDONIA FIRE PROTECTION

Y GWRTHWYNEBWYR MEET THE OPPOSITION

AMATURIAID Y BLAENAU BLAENAU FFESTINIOG AMATEURS

Rheolwr / Manager

Geraint Owen

Cae / Ground

Cae Clyd

Sefydlwyd / Founded

1980



HANES Y CLWB

Yn ystod 1970au hwyr, roedd CPD Blaenau Ffestiniog FC yn parhau efo'u polisi o arwyddo chwaraewyr hanner-broffesiynol o ardaloedd Lerpwl a Wrecsam i ffurfio'u tîm cyntaf. Doedd gan chwaraewyr lleol oedd â'u bryd ar chwarae yn rheolaidd ddim gobaith heblaw am gael eu defnyddio yn yr ail dîm bob yn hyn a hyn. Heb gyfle i chwarae'n rheolaidd i'w tîm lleol, doedd gan yr hogia ddim dewis ond chwarae i glybiau du hwnt i'r dref. Roedd

anniddigrwydd efo polisi'r clwb yn lleol. Yn nhymor 1979-80 penderfynodd y clwb beidio cynnal ail dîm o gwbl oherwydd materion ariannol. Penderfynodd llawer ei bod hi'n amser i weithredu.

Ar Orffennaf 17 1980 cynhalwyd gyfarfod yng ngwesty'r North Western i drafod ffurfio clwb pêl-droed newydd. Cadeirwyd y cyfarfod gan Gwilym Roberts, cyn-chwaraewr Bolton Wanderers a West Bromwich Albion, a bu'r cyfarfod yn llwyddiant mawr. Ffurfiwyd CPD AMATURIAID Y BLAENAU, ac aed ati i ethol swyddogion i weinyddu'r clwb. Etholwyd Gwilym Roberts i fod yn rheolwr am y



tymor cyntaf, a bu cais y clwb i ymuno â Cyng rhair Dyffryn Conwy yn llwyddiannus. Gyda chymorth cyfraniadau ariannol dechreuodd y clwb eu tymor cyntaf oddi cartref yn erbyn Conwy British Legion.

Bu'r gêm gyntaf hon yn llwyddiant (5-1 i'r Amaturiaid), ond mi gymerodd hi amser i'r clwb sefydlu eu hunain.

Fodd bynnag, yn 1983-84 enillodd y tîm eu cwpan gyntaf, sef cwpan y gynghrair, Cwpan Frank Tyldesley. Enillodd yr Amaturiaid y gwpan eto y tymor wedyn, ac eto yn 1986-87. Bu rhaid iddyn nhw aros tan 1987-88 cyn ennill pencampwriaeth Cyng rhair Dyffryn Conwy am y tro cyntaf, gan ennill o ddau bwynt uwchben Penmaenmawr mewn diwedd glo agos. Wedi gorffen y gynghrair y tymor blaenorol yn yr ail safle, roedd hi'n deimlad melyn i guro'r gynghrair heb golli gêm, ac hefyd ennill y dwbl trwy gipio Cwpan Her y Gynghrair yn erbyn eu cymdogion agos Dolwyddelan.

Gyda'r llwyddiant hwn a'r ffaith eu bod nhw bellach ymysg y clybiau mwyaf yng Nghynghrair Dyffryn Conwy, gwnaeth y clwb gais i ymuno â Chynghrair Gwynedd. Bu'r cais yn llwyddiannus a dechreuodd eu haelodaeth yn nhymor 1988-89. Daeth y clwb yn aelod sefydlog yng Nghynghrair Gwynedd ond methwyd ag ennill unrhyw wobrau, gan orffen yng nghanol y tabl bob tymor. Oherwydd problemau ariannol

gadawodd y clwb y gynghrair ac ail-ymuno â Chynghrair Dyffryn Conwy, ble bu eu ail dîm yn chwarae yn y tymhorau blaenorol. Yn eu trydydd tymor yn ôl yng Nghynghrair Dyffryn Conwy, cipiodd Amaturiaid y Blaenau y gynghrair, a gyda'r clwb yn ôl ar eu traed yn ariannol cawsant ddychafiad yn ôl i Gynghrair Gwynedd yn 1999-2000.

Cyrhaeddodd y clwb eu ffeinal cyntaf yng Nghynghrair Gwynedd y tymor hwnnw, gan golli yn erbyn Pwllheli yn ffeinal Tarian Eryri. Pedwar tymor wedyn enillodd yr Amaturiaid eu cwpan gyntaf yn Nghynghrair Gwynedd trwy guro Beaumaris Town yn ffeinal Cwpan y Llywydd, a'i hail-ennill hi y tymor canlynol trwy guro Nantlle Vale yn 2004-05. Yn yr un tymor cafodd yr Amaturiaid eu henwau ar Gwpan Gwynedd am y tro cyntaf, trwy guro Nefyn United yn y ffeinal.

Yn nhymor 2018-19, tra'n chwarae yn ail adran Cyng rhair Undebol Cymru, sicrhawyd dyrchafiad i'r adran gyntaf, yn ail agos i'r pencampwyr Glanconwy. Fodd bynnag, bu rhaid diddymu tymor 2019-20 yng ngwanwyn 2020 oherwydd y pandemig Covid-19. Cyhoeddodd CBDC gynlluniau ar gyfer strwythur pyramid newydd i'r cynghreiriau, a sicrhodd yr Amaturiaid statws Tier 3, a chael eu derbyn i Gynghrair Ardal 3 Gogledd Orllewin ar gyfer tymor 2021-22.



DOCSHED

RHAGLENNI FFEITHIOL

BEVERLEY JONES

HAIRDRESSING



ANDREW COOK

BARBERING



Kitchen Medic

07733 303353



PLUMBING & HEATING SUPPLIES LTD

SPECIALIST SUPPLIERS OF

- BOILERS
- RADIATORS
- BATHROOMS
- PLUMBING EQUIPMENTS



RHYDYMWYN 1 Y FELINHELI O

21.08.21 - Ardal North West, Mornflake Ground

Ar ôl canlyniad siomedig yn erbyn CPD Nantlle Vale nos Fercher, 'handbags' ar ddiwedd y gem yn costio cerdyn coch i Gav, Gruff John dal allan ar ôl tynnu llinyn gar yn erbyn Saltney ac Archie yn hunan ynysu. Roedd cael Pob yn ôl yn yr ystafell newid yn ddipyn o hwb, er ei fod o'n nodi pob ffein fel sarjânt ac yn chwilio am bar o siort efo cortyn. Dal ddim sôn o'r cit newydd, Fish dal yn disgwyl am 'Compression socks' i gyd-fynd yn ôl sôn, ond roedd yn rhaid canolbwyntio ar y gem a symud ymlaen fel tîm i drïo cael 3 pwynt cyntaf yn 'Tier 3'.

Trafaelio lawr 'coast' eto oedd oflaen yr ogia Dydd Sad, i Rhydymwyn! Sbectols haul Euron ymlaen ar ôl twnnel Conwy unwaith eto (tourist), ac oedd cael

clubhouse ar ochr y cae wedi ennyn diddordeb lot o'r cefnogwyr, dwi'n pam?. Gem gwpan yn 2009 oedd y tro diwethaf i Felin wynebu Rhydymwyn, ac roedd lluniau Phil Stead ar Instagram yn dangos Chris Hughes yn gweld coch yn llythrennol. Ond anodd gwybod beth oedd Felin yn ei wynebu y tro yma gan fod canlyniadau'r lîg yn bob man!

Newid bach i'r tîm efo Meds Darbi yn cychwyn ar y chwith ac Ow Em yn dod mewn ar y Dde. Cychwynnodd y gem ac roedd Felin ar y top ac yn cadw yn meddiant yn dda. Pêl dda lawr y dde gan If Stead yn rhoi cyfle i Ow Em groesi'r bêl i mewn ac yn cyrraedd troed Meds Darbi ond bowns anffodus yn achosi Meds i 'Skioi'. Pum munud yn ddiweddarach talodd Meds y pwyth yn ôl gan roi cracar o bêl mewn ar draws y gôl i droed Ow Em, ond taro'r post oedd y gorau oedd Ows yn gallu ei wneud. Pwysau buan Felin i weld yn dychryn Rhydymwyn ond



wrth i'r gem fynd yn ei flaen mi dyfodd Rhydymwyn mewn i'r gem.

Cic gornel 'in-swing' i'r postyn blaen hanner ffordd drwy'r hanner cyntaf yn rhoi Rhydymwyn ar y blaen 1-0 a'r pwysau am y pymtheg munud olaf gan y tîm cartref yn neud hi'n anodd i Felin ddod allan o'u hanner eu hunain. Bach o seibiant i'r amddiffynwyr wrth i Meds ennill cic gornel tuag at ddiwedd yr hanner cyntaf. Iw Eds a Con Pat yn gweithio 1-2s a chwip o bêl mewn gan Iw Eds ond neb ar i diwedd hi i roi dipyn o obaith i Felin i fynd mewn hanner amser. Pennau'r ogia i lawr hanner amser a heblaw ambell i arbediad gan Gut fysa hi di gallu bod lot gwaeth.

Dechreuodd yr ail hanner dipyn gwell gyda Felin yn trio ambell ergyd tuag at gôl Rhydymwyn. Sgwrs hanner amser gan Eur, Islwyn a Lenny wedi rhoi dipyn o obaith yn ôl i'r chwaraewyr. Ond dal methu ffeindio cefn y rhwyd oedd stori yr ail hanner er mwyn rhoi pwysa ar y tîm cartref, a doedd y llumanwr ddim yn helpu wrth godi ei

fflag am bob pêl rhoddodd midffild Felin lawr y coridor ansicrwydd. Daeth Iw Bonc ymlaen yn lle Cra Bra, Rich ymlaen yn lle Ow Em, a Pob yn lle Con Pat i weld os allith coesau ffres dorri amddiffynwyr y tîm cartref. Er yr holl bwysau gan Felin roedd Rhydymwyn dal yn chwilio am yr ail gôl. Heblaw am ambell dacl munud olaf gan y 'back 4' a arbediadau (19 yn ôl Phil Stead) gwych gan seren y gem Gut fysa hi wedi gallu bod yn sgôr criced.

Ymlaen i Seilo nos Fercher yn erbyn Blaenau Ffestiniog gan obeithio cael canlyniad cadarnhaol.

Adroddiad
gêm

**IFAN
DAFYDD**



TIMAU / LINEUPS



← Rhydymwyn FC – CPD Y Felinheli FC 21. Aug 2021, 14:30			
☆		1:0	☆
TIMELINE		LINEUP	INFO
1	MANLEY C. G		HUGHES G. G
2	HARTE K.		JONES I.
3	GRIFFITHS J.		CAIN R.
4	MASSEY H. C		JAPHETH C.
5	REES M.		JONES D.
6	MANLEY O.		STEAD I.
7	GILSENAN M.		JONES R. C
8	ROGERS I.		EDWARDS I.
9	HALEY S.		BROWN C.
10	WOOSEY A.		ROBERTS O.
11	MENDOZA N.		DERBYSHIRE M.

Substitutions			
12	GUEST M.		OWEN I.
13	DUNN R.		JONES R.
14	WEAVER W.		GRIFFITH A.
15	SWANN-JONES N.		DAVIES E.
16	DAY K.		JOHN G.
Team officials			
TARREN S. Coach		OWEN I. Assistant Manager	
PARRY J. First Team Manager		DAVIES E. Team Manager	
WEAVER A. First Team Manager			

Lluniau / Pictures: Phil Stead

Londis

Y Felinheli



HUWS GRAY





NANTLLE VALE 1

Y FELINHELI 0

18.08.21 - Ardal North West, Maes Dulyn

Cafwyd dipyn o frwydr ar, ac oddi ar, cae Maes Dulyn nos fercher, 18fed o Awst.

Newidiodd Euron siâp tîm Felinheli ar gyfer y gêm hon yn erbyn Nantlle Vale, gan ddechrau efo Gavin a Chris yn yr amddiffyn, ond gafodd Gruff John anaf wrth gynhesu fyny. Felly, lw Eds yn dechrau yn ei le, a lle ar y fainc i Iwan Bonc. Tro cyntaf i Felin gael 5 ar y fainc tymor yma oherwydd anafiadau a phriodasau!

Dechreuodd Felin yn dda, ond roedd pwysau chwaraewyr Vale yn gorfodi camgymeriadau gan Felin. Dyma Vale yn tyfu mewn i'r gêm ac yn dod yn agos dipyn o weithiau gan achosi i Guto i

wneud arbediadau arbennig, fel 'da ni wedi gweld yn barod y tymor yma. Roedd Felin yn gweld hi'n anodd cael gafael ar y bêl a daeth y gôl gyntaf o gic cornel. Y bêl yn disgyn i rhif 7 yn y cwrt cosbi. Dim byd allai Guto wneud am y peth. 1-0. Roedd y chwiban hanner amser yn gysur i Felin ryw chwarter awr wedyn.

Roedd yr ail hanner lot gwell gan Felin. Daeth Mereds ac lw Bonc ymlaen ar ôl deng munud. Newid siâp a newid yn y perfformiad. Daeth Archie yn agos gyda peniad yn taro'r postyn a Rhods ac lw Eds yn dod yn agos hefyd. Gyda Felin yn pwyso roedd cyfleodd i Vale wrth-ymosod. Daeth y tim cartref yn agos ambell i waith a Guto'n cadw Felin yn y gêm gydag



arbediad campus a dim ond deng munud i fynd. Daeth Owain Em ymlaen i geisio cipio gôl. Roedd hi'n dipyn o 'derby' wrth i'r dyfarnwr rhoi cardiau melyn i chwarewyr bron bob tacl. Rhods a Ryan yn cael cardyn melyn - cue y bloeddio gan gefnogwyr Felin, yn enwedig Dei O (y postman mwyaf swnllyd a glywch chi erioed!)

Yn anffodus doedd Felin methu sgorio felly gorffennodd y gêm - Nantlle Vale 1-0 CPD Y Felinheli.

Canlyniad siomedig ond ddim mor siomedig a'r golygfeydd ar ddiwedd y gêm. Cafodd y ddau dim cardyn coch yr un ar ôl i bethau fynd yn flêr. Ond ar y cae mae'r perfformiadau wedi bod yn galonogol. Mae Felin yn haeddu bod yn y gynghrair yma a dim ond mater o amser fydd hi nes fydd y canlyniadau yn troi.



Adroddiad gêm

ALED EMYR



TIMAU / LINEUPS



← Nantlle Vale FC – CPD Y Felinheli FC 18. Aug 2021, 18:30 → ☆			
NANTLLE VALE FC 1:0 CPD Y FELINHELI FC		☆ ★	
TIMELINE		LINEUP	
INFO			
1	ROBERTS O. G	HUGHES G. G	1
2	WILLIAMS A.	JONES I.	2
3	PARRY C.	CAIN R.	3
4	DAVIES M. C	JAPHETH C.	4
5	POLLARD S.	JONES D.	5
7	MORGAN C.	BROWN C.	6
11	OWEN A.	JONES R.	7
15	THOMAS J.	LLOYD-JONES G.	9
16	GWENALLT G.	STEAD I.	10
17	ROBERTS D.	PARRY R.	11
24	DANIEL EVANS A	EDWARDS I.	14
Substitutions			
9	JAMIE JONES	DERBYSHIRE M.	8
10	AARON HUGHES	JONES R.	12
18	TUDUR O.	OWEN I.	15
20	HUGHES H.	ROBERTS O.	18
23	BELL D.	EMYR A.	19
Team officials			
EDWARDS G. Coach		DAVIES E. Team Manager	
ROBERTS D. First Aider			
BELL D. First Team Manager			
JONES S. Team Manager			

Lluniau / Pictures: Phil Stead

www.cpd-y-felinheli.cymru

ArGoedd

Cysylltiadau Cyhoeddus • PR.

 **argoedd.cymru**



OREN

BWYDYDD • FOODS



I.M & D.M Owen
(Adeiladwyr) CYF

islwynbonc@yahoo.co.uk

dylbonc@live.co.uk

07880714136

07917572305



SALTNEY TOWN 3 Y FELINHELI 2

14.08.21 - Ardal North West, Sandy Lane

Yn dilyn perfformiad calonogol iawn gartref i Borthmadog y sadwrn cynt, ymlaen a Felin i Saltney yn y rownd gyntaf o Gwpan Cymru.

Efo'r holl anafiadau ers cychwyn y tymor, cael a chael oedd ffindio digon o hogia i neud tîm, felly oddi'n "backs to the wall" o'r cychwyn cynta!

Yn dilyn "FA Cup Final style walkout, circa 1989", cychwynodd y gêm drwy weld Saltney'n bygwth lot lawr yr asgell chwith, gan roi ambell i gŵr yn pen i Matthew 'Chiellini' Fish (capten mwyaf llwyddianus yn hanes y clwb), ond llwyddodd yr hogia i ddal eu tir am oddeutu'r hanner awr cynta, cyn i Saltney fynd ar y blaen drwy

ymosodiad sydyn lawr y dde.

Er mynd a'r ei hôl hi, ni aeth pena'r hogia i lawr, ac o fewn dim, ffeindiodd Ifan "benchpress" Stead ei hun yn nghanol cwrw 6 y gwrthwynbwyr, lle nafodd o ddigon i orfodi amddiffynwyr y tîm cartref i'w dynnu lawr am gic o'r smotyn.

I fyny a gamodd Heung-min John (Gruff) i blannu'r bêl yn nghefn y rhwyd i neuti'n 1-1.

Siom ddoth bron yn syth wedyn, wrth i sgoriwr Felin dynnu fyny efo poen yn y groin. Cario mlaen tan hanner amser yn yr obaith bysa petha'n gwella, ond doedd "magic hands Lenny" methu hydnoed sortio'r broblem yn ystod y toriad.



Cychwyn yr ail hanner felly, efo'r unig sub injury free, ac o dan 40 oedd gena ni ar y fainc! Ddod Rich ymlaen yn lle Gruff i neud ei debut yn dilyn arwyddo o Lanberis yn hwyr bawn Gwener.

Saltney gafodd y gorau o'r ail hanner, ac er ymdrechion Guto yn y gôl, aeth y tîm cartref yn eu blaen i sgorio dwy, a'i gwneud hi'n 3-1.

Rhwng y ddwy gôl, roedd rhaid i Connor Japheth ddod o'r maes (pigyn yn glust dwi'n meddwl), gan rhoi conundrum i'r tîm rheoli, pwy i ddod ymlaen yn ei le?? Toedd Iw Bonc ddim cweit digon fit eto yn dilyn anaf hir-dymor, ac oedd Eifion yn rhu brysur yn byta chocolates yn y dent coffi!! Felly dim ond un peth amdani, cue prif sgoriwr 1999-2000, Euron Davies, a chwaraeodd y chwarter awr dwutha i fyny ffrynt.

Er fod y gêm i weld wedi'w cholli, parhaodd hogia Felin i frwydro tan y funud ola. A trwy eu ymdrechion, llwyddo i gael gôl gysur drwy ergyd daclus iawn Ifan Stead i dop y rhwyd.

Sgôr terfynol felly o 3-2. Dim y canlyniad oedda ni'n obeithio am yn amlwg, ond perfformiad oedd yn dangos digon o galon unwaith eto.

Adroddiad gêm

DYL BONC



TIMAU / LINEUPS



Saltney Town FC – CPD Y Felinheli FC			
14. Aug 2021, 14:00			
3 : 2			
TIMELINE		LINEUP	
1		HUGHES G.	
2		JONES I.	
3		CAIN R.	
4		JAPHETH C.	
5		JONES D.	
6		HUGHES M.	
7		JONES R.	
8		JOHN G.	
9		BROWN C.	
10		STEAD I.	
11		PARRY R.	

Substitutions			
12		JONES R.	
15		EDWARDS R.	
16		OWEN D.	
17		OWEN I.	
		DAVIES E.	

Team officials			
THELWELL R.		OWEN I.	
MEREDITH D.		DAVIES E.	

Lluniau / Pictures: Phil Stead

www.cpd-y-felinheli.cymru



EICH GOFAL YN FLAENLLAW
WHERE MOBILITY MATTERS

WATKIN

JONES





Y FELINHELI 1

PORTHMADOG 2

07.08.21 - Ail Rownd Tlws FAW, Cae Seilo

Gyda Senedd Cymru yn llacio cyfyngiadau Covid yn ein gwlad, roedd posib agor yr eisteddle am y tro cyntaf, yn ogystal a chael defnyddio yr ystafelloedd newid unwaith eto. Diolch byth am hynny, gan fod y glaw wedi pistyllio i lawr drwy'r ail hanner, ac o leiaf roedd rhywfaint o'r dorf o ryw 180 yn medru cadw yn sych. A roedd cawod cynnes ar ol y gêm yn rhywbeth i'w werthfawrogi gan y chwaraewyr gwlyb. Do, roedd cyhoeddiad Mr Drakeford yn amserol iawn.

Porthmadog yw "big spenders" y gynghrair mae Felin yn rhan ohoni. Ac i ddweud y gwir, mae hi yn anodd gwybod sut mae nhw wedi landio yn y gynghrair "haen 3". Mae nhw yn amlwg ar frys i fynd yn ol i'r ail haen, os nad y brif gynghrair, yn ol yr arian mae nhw yn fodlon dalu i chwaraewyr. Felly roedd y gêm gwpan yma yn mynd i fod yn gêm anodd. A gyda pum neu chwech chwaraewr allweddol Felin yn absennol am wahanol resymau, toedd neb yn disgwyl ryw lawer.

Port ddechraeodd gryfa, gyda un cyfle yn dod yn ol oddi ar y postyn i freichiau croeswagar Guto, y gôli. Ond daeth Felin yn fwy i fewn i'r gêm, gyda cwpal o gynnygion da gan Ryan, ac wedyn Iw Eds.



Ac yn wir erbyn hanner amser, roedd Felin 1-0 ar y blaen. Gôl bendigedig gan Rhys "Archie" Parry, hedar bwerus o groesiad Meredydd Darbi o'r asgell dde. Toedd neb yn disgwyl hyn.

Llwyddodd Port sgorio dwy gol yn yr ail hanner, dwy gôl dda iawn, y gyntaf rhyw 10 munud i fewn i'r ail hanner. Daeth yr ail gyda llai nag 20 munud ar ol. Ond o fewn munudau i'w ail gôl, roedd Felin yn meddwl eu bod yn gyfartal unwaith eto, ddim ond i'r llimanwr bendefynnu ei bod yn offseid. Roedd Deio, 8 oed, a oedd ddigon call i fynd i'r eisteddle yn y glaw, yn taeru nad oedd dim o'i le efo'r gôl.

Colli 1-2 yn erbyn tim cryf iawn, a chwarae yn galed tan y diwedd, ac yn dangos lot o galon, da iawn Felin.

Cafwyd bwyd a pheint yn y Shed ar ol y gêm, diolch i Gwion Tegid. Ac i Moira am y sosejus a Chans am y chips. Hwn oedd y tro cyntaf i ni gael mynd i rywle ar ol gêm, efo'r holl helynt Covid 'ma.

Adroddiad gêm
GWIL JOHN



TIMAU / LINEUPS




CPD Y Felinheli FC – Porthmadog FC		
7. Aug 2021, 14:00		
1 : 2		
TIMELINE	LINEUP	INFO
1 HUGHES G. G	DYLAN ROBERTS G	1
2 JONES I.	GARETH JONES-EVANS C	2
3 CAIN R.	JOSH BANKS	3
4 JAPHETH C.	JAMES MORGAN	4
5 JONES D.	STUART ROGERS	6
6 STEAD I.	IFAN EMLYN JONES	7
7 JONES R. C	DEWI THOMAS	8
8 DERBYSHIRE M. A	MATTY JONES	9
11 PARRY R.	NATHAN CRAIG A	11
12 BROWN C.	RHYS ALUN WILLIAMS	14
14 EDWARDS I.	JULIAN WILLIAMS	16

Substitutions		
9 OWEN D.	JOHN LITTLEMORE	10
10 EMYR A.	JAMIE MCDAID	15
16 ROBERTS O.	PAUL LEWIS	17
17 GRIFFITH A.	MARCUS ORLIK	18
	BEN FISHER	20
Team officials		
OWEN I. Coach	WINSTANLEY A. Assistant Manager	
	ROBERTS C. First Aider	
	PAPIRNYK C. Team Manager	

Lluniau / Pictures: Phil Stead

www.cpd-y-felinheli.cymru



BDS GWYNEDD



ROBERTS
OF PORT DINORWIC
— | EST 1924 | —





HANES Y CLWB

Er mai dim ond ers 1977 y mae'r clwb presennol wedi' ffurfio, mae nifer o dimau wedi bodoli yn y pentref yn y gorffennol. Mae tystiolaeth o dîm yn y pentref yn y 1890au yn ogystal ag amryw o dimau yn y 1920au a 30au.

Mae 'na gofnod o Port Dinorwic yn ennill Cwpan Alves Cynghrair Caernarfon a'r Cylch yn 1945/46. Roedd y timau yma i gyd yn chwarae eu gemau cartref ar gae yn Stad y Faenol.

Cyn y clwb presennol, roedd tim yn y 1960au a chwaraeodd yng Nghynghrair Caernarfon a'r Cylch am ddau dymor. Roedd y clwb yma'n chwarae ar yr un cae a'r clwb presennol.

Ffurfiwyd y clwb presennol ar y 3ydd o Orffennaf, 1977 fel Portdinorwic Football

Club, gan ymuno a Chynghrair Caernarfon a'r Cylch. Blwyddyn yn ddiweddarach, newidiwyd enw'r clwb i Clwb Pel Droed Y Felinheli (sef yr enw sy'n cael ei ddefnyddio heddiw).

Ennillodd y clwb Cynghrair Caernarfon a'r Cylch yn 1981/82 a 1982/83, ac yn 1983/84 ymunodd y clwb a'r cynghrair newydd, Cynghrair Gwynedd. Felin oedd ennillwyr cyntaf y gynghrair yma ac yn sgil hyn, cafwyd dyrchafiad i Gynghrair Undebol y Gogledd (The North Wales Coast League). Yn 1987/88, ennillodd y clwb eu tlws mwyaf sef y 'North Wales Coast Challenge Cup', a roedd y clwb yn ail yn yr un cystadleuaeth yn 1988/89 a 1989/90.

Yn 1991/92 cyrhaeddodd y clwb eu safle uchaf erioed, sef ail yng Nghynghrair

Undebol y Gogledd. Yn ogystal a hyn, gwelwyd y dorf mwyaf erioed yn Cae Seilo pan ddaeth tua 600 o bobl i weld gem olaf y tymor yn erbyn Llangefni Town i benderfynnu tynged y gynghrair. Ennillodd y clwb Cwpan Alves y Cynghrair Undebol yn yr un tymor gan guro Nantlle Vale.

Yn 1994/95, disgynodd y clwb yn ol i Gynghrair Gwynedd, ble treuliodd y 6 tymor nesaf. Yn ystod y cyfnod yma, roedd llwyddiant i'r clwb yn Cwpan Barrit, ac yn 2001, ennillodd y clwb Gynghrair Gwynedd a cael dyrchafiad yn ol i Gynghrair Undebol y Gogledd. Yn y tymor cyntaf yn ol, gorffennodd y clwb yn hanner uchaf y tabl, ond nid oedd y tymor canlynol mor llwyddianus a disgynodd y clwb yn ol i Gynghrair Gwynedd. Roedd disgyniad arall y tymor canlynol yn ol i Gynghrair Caernarfon a'r Cylch.


Dros y blynyddoedd nesaf, roedd y clwb yn ail yn y tabl ar nifer o achlysuron, a ennillodd y clwb y NWCFA Junior Cup yn 2013 a 2014.

Yn 2013/14, cyflawnodd y clwb y trebl gan ennill y gynghriar, y Junior Cup a Cwpan

Llun Mewn Ffram gan sicrhau dyrchafiad yn ol i Gynghrair Gwynedd.

Ar ol cyfnod byr o ddwy flynedd yng Nghynghrair Gwynedd, dyrchafwyd y clwb yn ol i system cynghreiriau yr FAW ar ol cyflawni'r dwbl gan ennill Cynghrair Gwynedd a Cwpan Gwynedd yn nhymor 2014/15.





CLUB HISTORY

Although the current club was only formed in 1977, there have been many teams in the village in the past. There is evidence of a team in the village in the 1890s and various teams during the 1920s and 30s.

There's a record of Port Dinorwic winning the Caernarfon & District League Alves Cup in 1945/46. All of the above teams played their home games on a field within the Faenol Estate.

Before the current club there was a team in the 1960's that played in the Caernarfon & District League for two seasons, this club played on the same ground that the current club plays on.

The current club was formed on the 3rd of July 1977 as Portdinorwic Football Club and entered the Caernarfon And

District League. A year later the name was changed to Clwb Pel Droed Y Felinheli (which is the name that is currently used).

The club won the Caernarfon And District League in 1981/82 and 1982/83, and in 1983/84 they entered the newly formed Gwynedd League, of which they were the inaugural champions and got promoted to the Welsh Alliance League (The North Wales Coast League). In 1987/88 the club won their highest honors the North Wales Coast Challenge Cup, the club were finalist in the same competition in 1988/89 and 1989/90.

In 1991/92 the club gained their highest league position of 2nd in the Welsh Alliance League, they also had their highest attendance of all time when

approximately 600 people turned up at Cae Seilo to watch the end of season title decider against Llangefni Town. Also that season, the club were the Welsh League Alves Cup Winners against Nantlle Vale.


In 1994/95 the club were relegated back to the Gwynedd League, where the club spent the next 6 seasons. During this period the club gained success in the Barritt Cup, in 2001 the club won the Gwynedd League, gaining promotion back to the Welsh Alliance League. After a relatively successful 1st season back with a top half finish, the 2nd season was not as impressive finishing at the foot of the table being relegated to the Gwynedd League. With a further relegation the next season to the Caernarfon District League.

Over the next few years the club were runners up a few times along with back to back NWCFA Junior Cup titles in 2013 and 2014.

In 2013/14 the club achieved the coveted League, Junior Cup and Llun Mewn Ffram treble achieving a promotion back to the Gwynedd League.

After a short two season spell in the Gwynedd League the club gained promotion back into the FAW's directly affiliated league system after winning the Gwynedd League and Cup double in the 2014/15 season.





- Civil Engineering & Groundworks -
- Peirianeg Sifil a Gwaith Tir
- Drain Cleaning & Jetting -
- Glanhau a jetio draeniau
- Environmental Services -
- Gwasanaethau amgylcheddol

07876220571 - info@cromwell-services.co.uk



RONDO

Sgorio

tegfai
Llanrug



BATHODYNAU £3

BADGES £3



Mae bathodynau newydd wedi eu creu i nodi ennill y gynghrair yn nhymor 2019-20. Mae un bathodyn yn costio £3 (postio yn ychwanegol os fydd angen). Cysylltwch a'r clwb drwy ebost: **post@cpd-y-felinheli.cymru**, cyfryngau cymdeithasol, neu'r rhif ffon **07917572305**.

New badges have been created to mark the 2019-20 league winning season. One badge costs £3 (plus postage). Contact the club by email: **post@cpd-y-felinheli.cymru**, social media, or phone **07917572305**.

ARDAL NORTH WEST



Tabl y Gyng rhair / League Table

Wedi diweddarw 23.08.21 / Updated 23.08.21

#	Team	PI	HW	HD	HL	AW	AD	AL	W	D	L	F	A	Diff	Pts
1.	Llanuwchllyn	4	2	0	0	1	1	0	3	1	0	12	4	8	10
2.	Saltney Town	5	2	0	1	1	0	1	3	0	2	16	9	7	9
3.	Llanrwst Utd	3	2	0	0	0	1	0	2	1	0	7	4	3	7
4.	Rhydywryn	4	2	0	0	0	1	1	2	1	1	6	10	-4	7
5.	Mold Alexandra	2	2	0	0	0	0	0	2	0	0	12	4	8	6
6.	Porthmadog	2	0	0	0	2	0	0	2	0	0	8	0	8	6
7.	Nantlle Vale	3	1	0	0	1	0	1	2	0	1	5	2	3	6
8.	Brymbo	4	1	0	0	1	0	2	2	0	2	8	9	-1	6
9.	Brickfield Rangers	5	2	0	2	0	0	1	2	0	3	9	13	-4	6
10.	Rhostyllen	3	0	2	0	1	0	0	1	2	0	3	2	1	5
11.	Denbigh Town	1	0	0	0	1	0	0	1	0	0	3	0	3	3
12.	Llandudno Albion	3	0	0	0	1	0	2	1	0	2	6	7	-1	3
13.	Y Felinheli	4	0	1	0	0	1	2	0	2	2	3	5	-2	2
14.	St Asaph City	5	0	2	2	0	0	1	0	2	3	5	15	-10	2
15.	Blaenau Amateurs	5	0	0	3	0	1	1	0	1	4	4	16	-12	1
16.	Llay Welfare	3	0	0	1	0	0	2	0	0	3	3	10	-7	0

TYMOR 2021-22 SEASON

10.07.21	14:00	Y Felinheli	4-0	Mynydd Llandegai	Welsh Cup
17.07.21	14:00	Y Felinheli	4-0	Llanystumdwy	FAW Trophy
24.07.21	14:00	Y Felinheli	2-0	Waunfawr	Welsh Cup
31.07.21	14:30	Rhostyllen	1-1	Y Felinheli	League
04.08.21	18:45	Y Felinheli	2-2	Llanrwst	League
07.08.21	14:00	Y Felinheli	1-2	Porthmadog	FAW Trophy
14.08.21	14:00	Saltney Town	3-2	Y Felinheli	Welsh Cup
18.08.21	18:30	Nantlle Vale	1-0	Y Felinheli	League
21.08.21	14:30	Rhydymwyn	1-0	Y Felinheli	League
25.08.21	18:30	Y Felinheli	v	Blaenau Ffestiniog Amateurs	League
28.08.21	14:30	Saltney Town	v	Y Felinheli	League
05.09.21	14:30	Llay Welfare	v	Y Felinheli	League Cup
18.09.21	14:30	Y Felinheli	v	St Asaph City	League
25.09.21	14:30	Mold Alexandra	v	Y Felinheli	League
02.10.21	14:30	Y Felinheli	v	Brickfield Rangers	League
09.10.21	14:30	Y Felinheli	v	Brymbo	League
16.10.21	14:30	Llay Welfare	v	Y Felinheli	League
23.10.21	14:30	Denbigh Town	v	Y Felinheli	League
30.10.21	14:30	Y Felinheli	v	Llandudno Albion	League
06.11.21	14:30	Porthmadog	v	Y Felinheli	League
13.11.21	14:00	Y Felinheli	v	Llanuwchllyn	League
20.11.21	14:00	Y Felinheli	v	Rhydymwyn	League
27.11.21	14:00	Y Felinheli	v	Rhostyllen	League
11.12.21	14:00	Llanrwst	v	Y Felinheli	League
18.12.21	14:00	Blaenau Ffestiniog Amateurs	v	Y Felinheli	League
26.12.21	14:00	Y Felinheli	v	Nantlle Vale	League
05.02.22	14:00	Y Felinheli	v	Saltney Town	League
12.02.22	14:00	St Asaph City	v	Y Felinheli	League
19.02.22	14:00	Y Felinheli	v	Mold Alexandra	League
26.02.22	14:00	Brickfield Rangers	v	Y Felinheli	League
05.03.22	14:30	Brymbo	v	Y Felinheli	League
12.03.22	14:30	Y Felinheli	v	Llay Welfare	League
19.03.22	14:30	Y Felinheli	v	Denbigh Town	League
25.03.22	19:45	Llandudno Albion	v	Y Felinheli	League
02.04.22	14:30	Y Felinheli	v	Porthmadog	League
09.04.22	14:30	Llanuwchllyn	v	Y Felinheli	League



macron



**ARDAL
NORTHERN**

OFFICIAL BALL PARTNER

**LOCK
STOCK**
SELF STORAGE



**ARDAL
NORTHERN**

**Discount for
all players
and officials
on our
storage and
fireworks**



**25%
OFF
STORAGE** **FIRST 3
MONTHS**

**LOCK
STOCK**
SELF STORAGE



www.lockstock.biz
0808 100 1292



Terms & conditions apply:

See website for more details.

Applies to the first 3 months of storage only.

On presentation of Ardal League players and officials ID.

Not to be used in conjunction with any other offer.

Valid until 31st July 2021



**LOCK
STOCK**
SELF STORAGE



**ARDAL
NORTHERN**

0808 100 1292

**LOCK
STOCK**
SELF STORAGE



**ARDAL
NORTHERN**



LOTT

CAFFI • BAR • BWYTY





RHEOLWR: EURON DAVIES

Chris Brown
Ryan Liam Cain
Carwyn Dafydd
Trystan Dafydd
Euron Wyn Davies
Meredydd Huw Derbyshire
Iwan Edwards
Rhys Edwards
Aled Emyr
Ifan Emyr
Aled Wyn Griffith
Dion Wyn Griffiths
James Matthew Robert Hatton
Aled Llyr Hughes
Caio Rhys Hughes
Guto Dwyllan Hughes
Martin James Hughes
Matthew Hughes
Connor Patrick Japheth
Gruff John
Dylan Michael Waters Jones
Ifan Dafydd Jones
Llion Wyn Jones
Rhodri Dafydd Jones
Richard Lloyd Jones
Gavin Lloyd-Jones
Dylan Meredydd Owen
Iwan Gwilym Owen
Rhys Sion Parry
Owain Emyr Roberts
Ifan Parry Stead
Gwion Tegid
Aled Williams

RHEOLWR: GERAINT OWEN

Aled Ellis
Cemlyn Owen
Carwyn Jones
Bryn Humphreys
Cian ap Carwyn Williams
Sion Jones
Sion Roberts
Seb Owen
Owain Jones-Owen
Gethin Jones
Joe Dukes-Morgan
Liam John Jones
Iwan Jones
Iwan Griffiths
Andrew Roberts
Huw Parry
Jack Diamond
Osian Hughes
Oli Dukes-Morgan
David Copsey
Gethin Rhys Roberts
Garry Hughes
Stephen Jones
Gethin Edwards
Morgan Lloyd Slater
Gareth Roberts
David Kian Jones

Dyfarnwr / Referee: William Gareth Parry

Dyfarnwr Cynorthwyol 1 / Assistant Referee 1: Karl Ashworth

Dyfarnwr Cynorthwyol 2 / Assistant Referee 2: Sion Wyn Hughes